# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 2227 |
| --- | --- |
| Committee | Pwllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Date | 20/04/2021 |
| Attendees | Cynghorwyr Haydn Trollope (Cadeirydd)<br>Cynghorwyr Julie Holt (Is-gadeirydd)<br>Cynghorwyr Derrick Bevan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Garth Collier (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Martin Cook (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Malcolm Day (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr D. Lyn Elias (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John Hill (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Clive Meredith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr John C. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorydd John P. Morgan (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Lee Parsons (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Tommy Smith (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr Bob Summers (Aelod Pwyllgor)<br>Cynghorwyr David Wilkshire (Aelod Pwyllgor)<br>Mr. Tim Baxter (Co-Optee)<br>Mr. Alun Williams (Co-Optee)<br>Lynn Phillips (Swyddog)<br>Michelle Jones (Swyddog)<br>Gavin Metheringham (Swyddog)<br>Claire Gardner (Swyddog)<br>Joanne Sims (Swyddog)<br>Luisa Munro-Morris (Swyddog)<br>Gemma Wasley (Swyddog)<br>Liz Thomas (Swyddog)<br>Leeann Turner (Secretary)<br>Gwasanaethau Democrataidd (Notify)<br>Pob Cynghorydd (Notify)<br>Louise Bishop (Notify)<br>Sean Scannell (Notify)<br>Richard Crook (Notify)<br>Rhian Hayden (Notify)<br>Damien McCann (Notify)<br>Michelle Morris (Notify)<br>Steve Berry (Swyddog)<br>Andrea Jones (Swyddog)<br>Cynghorwyr Joanne Collins (Notify) |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4682 |
| Item Title | Cyfieithu ar y Pryd |
| Summary | Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.<br><br>**CROESO**<br><br>Estynnodd y Cadeirydd groeso i Luisa Munro-Morris fel y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant newydd i'w chyfarfod ffurfiol cyntaf o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4683 |
| Item Title | Ymddiheuriadau |
| Summary | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr G. Collier, L. Elias, C. Meredith a D. Wilkshire<br><br>**Aelod Cyfetholedig**<br>A. Williams<br><br>Rheolwr Strategol Gwella Addysg |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4684 |
| Item Title | Datganiadau Buddiant a Goddefebau |
| Summary | Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4685 |
| Item Title | Cofnodion Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu |
| Summary | Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2021, ar hynny:-<br><br>Gofynnodd Aelod am i acronymau gael eu dangos mewn cromfachau ar ôl teitl neu ymadrodd.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i restr o acronymau gael ei pharatoi ar gyfer cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu ar gyfer cylch nesaf y Pwyllgor.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i gadarnhau'r cofnodion. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4690 |
| Item Title | Dalen Weithredu – 1 Ebrill 2021 |

| | |
|---|---|
| Summary | Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2021, ar hynny:-<br><br>**<u>Grantiau Llywodraeth Cymru</u>**<br><br>**<u>Prosiect Gweithgaredd Haf Ysgolion</u>**<br><br>Gofynnodd Aelod os y gellir ymestyn y cynllun i ysgolion eraill ar draws y fwrdeistref yn y dyfodol. Dywedodd y Rheolwr Trawsnewid Addysg fod rheolau llym am wario'r grant a'r meini prawf, er enghraifft, yn gysylltiedig gyda statws prydau ysgol am ddim ac yn y blaen, ac roedd wedi cysylltu gyda chyfres o ysgolion ledled y stad ysgolion. Wrth symud ymlaen, byddai'n mynd ati i gysylltu gydag ysgolion eraill yn y fwrdeistref am gymhwyster ar gyfer y cynllun.<br><br>Yng nghyswllt grantiau, dywedodd Aelod iddo ofyn am ddiweddariad yn y cyfarfod blaenorol ar grantiau a dderbyniwyd o'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) ac yn y blaen. Credai y derbyniwyd bron £2m ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ac yn y blaen a theimlai ei bod yn bwysig cael y ffigurau hynny. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod swyddogion cyllid yn paratoi nodyn ar y grant hwn i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu. Dywedodd yn gyffredinol fod y grant i gefnogi dysgwyr mwy difreintiedig. Mae meysydd penodol o wariant a byddai'r rhain yn cael eu cynnwys yn y nodyn i roi gwell dealltwriaeth i Aelodau o lle y cafodd yr arian grant ei gynllunio a'i wario. Dywedodd ei fod yn grant sylweddol, bron yn £2m ar draws y stad ysgolion, ac mae angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg sicrhau y caiff y grant ei gefnogi mewn modd addas i sicrhau fod teuluoedd, plant a dysgwyr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yn cael cyfle drwy'r ysgolion i fanteisio ar y cyllid hwnnw i gefnogi eu datblygiad.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 4691 |
| Item Title | Hunanarfarniad a Chynllunio Busnes Gwasanaethau Addysg Blaenau Gwent |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau'r Pwyllgor Craffu i graffu ar ganfyddiadau yr hunan arfarniad a'r prosesau cynllunio busnes cyffredinol a gynhelir o fewn y Gyfarwyddiaeth Addysg, ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allweddol.<br><br>Hysbysodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg yr Aelodau fod hwn yn adroddiad newydd ond y byddai peth o'r data yn cyfeirio'n ôl i 2019-2020 gan y cafodd trefniadau rheoli perfformiad a data eu llacio. Fodd bynnag, mae hwn yn adroddiad wedi'i ddiweddaru ar y sefyllfa bresennol o safbwynt hunanarfarnu.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a thynnodd sylw at feysydd lle gwnaed cynnydd da a lle mae angen gwella |

pellach.

Cyfeiriodd Aelod at graffu ar ddata 2019 a holodd am y rheswm am hyn, gan y teimlai bod adroddiad blaenorol wedi craffu ar y data hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg y bu llacio mewn trefniadau adrodd. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4, yn neilltuol o fewn ysgolion uwchradd, fodd bynnag maent yn seiliedig ar raddau asesiad gan ganolfannau. Dywedodd nad oedd yn bosibl cynnal meincnodi trylwyr oherwydd nad oeddent yn ganlyniadau a ddilyswyd yn allanol.

Cododd Aelod bryderon am y gwahanol ddulliau o asesu a theimlai ei bod yn bwysig nad oedd ysgolion yn cael ymdeimlad ffug o ddiogelwch wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod y canlyniadau a gafwyd yng Nghyfnod Allweddol 4 yn debyg i'r targedau a osodwyd yn y Cynlluniau Datblygu Ysgolion. Gallai adroddiadau'r dyfodol gynnwys cysylltiad rhwng perfformiad ar Gyfnod Allweddol 4 o gymharu â'r Cynllun Datblygu Ysgolion, ond roedd yn rhaid i'r Cyngor fod yn ofalus rhag dal ysgolion i gyfrif ar y data hwnnw ar hyn o bryd.

Cyfeiriodd Aelod at baragraff 6.2 – Ysgolion sy'n Achos Pryder, a theimlai na chafodd y gwaith gwella a wnaed yn yr ysgolion hyn dros y ddwy flynedd diwethaf ei gydnabod gan na fu Estyn yn cynnal gweithgaredd monitro arferol ers peth amser. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg fod y ddwy ysgol wedi codi'r mater hwn gan y cafodd ymweliadau monitro Estyn eu gohirio, sy'n golygu fod y ddwy ysgol yn parhau i fod mewn categori Estyn am gyfnod. Cynhaliwyd cyfarfodydd Ysgolion sy'n Achosi Pryder a dangos y gwnaed cynnydd boddhaol. Cynlluniwyd cyfarfod gyda Estyn ac roeddent wedi awgrymu'n glir, yn dibynnu ar unrhyw gynnydd posibl yn gysylltiedig â Covid, y byddai ymweliadau monitro yn ailddechrau yn nhymor yr hydref. Byddai hynny'n rhoi cyfle ir' ddwy ysgol i'r Arolygiaeth asesu eu cynnydd.

Holodd Aelod am y meysydd ar gyfer gwella, yn neilltuol sgiliau caffael iaith gwael mewn plant ifanc iawn ac awgrymodd y byddai cynyddu darpariaeth cyn-ysgol a meithrin ar draws y fwrdeistref yn ddatrysiad posibl. Holodd hefyd am y maes allweddol ar gyfer gwella ar waharddiadau ysgol a dywedodd os yw nifer gwaharddiadau ysgol yn parhau i gynyddu a bod nifer y disgyblion sy'n dewis hunanaddysgu yn cynyddu, yn dilyn Covid, y byddai'n anodd iawn gwella cyfraddau presenoldeb.

Yng nghyswllt darpariaeth feithrin a blynyddoedd cynnar dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod darpariaeth addas Blynyddoedd Cynnar yn sylfaenol ar gyfer caffael iaith ar oedran cynnar i alluogi plant i gael dechrau da, a fyddai'n effeithio ar eu haddysg drwy'r holl gyfnodau allweddol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr enghraifft o un o'r cynlluniau sy'n mynd rhagddo, sef roedd gan ddatblygiad newydd Glyncoed fel rhan o ysgolion 21ain Ganrif ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar gysylltiedig. Mae gwaith hefyd yn

mynd rhagddo gydag ysgolion, fel rhan o'r rhaglen drawsnewid ehangach, i sicrhau fod darpariaeth Blynyddoedd Cynnar ar gael ar draws y rhan fwyaf o'r stad ysgolion.

Yng nghyswllt gwaharddiadau a phresenoldeb, dywedodd y Cyfarwyddwr fod y dull gweithredu a ddefnyddiwyd yn bwysig i gadw dysgwyr o fewn safleoedd ysgol. Roedd paramedrau ar waith ond roedd angen gwaharddiadau weithiau, ond dim ond os oedd popeth arall wedi methu. Teimlai mai'r dull gweithredu mwyaf addas oedd rheoli ymddygiad cadarnhaol a pholisïau ac arferion da o fewn ysgolion a chredai y gallai ystyried dull gweithredu ataliol at waharddiadau gael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb yn gyffredinol.

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth Cynhwysiant fod adroddiad y Comisiynydd Plant yn edrych sut y gellid gostwng gwaharddiadau ar y Cyfnod Sylfaen yn sylweddol ar draws Cymru. Roedd nifer y gwaharddiadau o ysgolion cynradd ym Mlaenau Gwent wedi codi yn ystod y 3 blynedd nesaf ac maent yn awr yn edrych sut i symud ymlaen gydag adroddiad y Comisiynydd Plant. Yng nghyswllt y cysylltiad rhwng presenoldeb a gwaharddiadau, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth bod gwaharddiadau yn effeithio ar ffigurau presenoldeb. Mae'r tîm yn edrych ar hyn o bryd ar ddull gweithredu rhanbarthol ar waharddiadau ac yn ystyried rhai o'r arferion a weithredir ar draws y rhanbarth i weld sut y gallent ddatblygu'r arferion hynny er budd ysgolion Blaenau Gwent.

Ychwanegodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant, yng nghyswllt datblygu cynllun adferiad ac adnewyddu, ei bod yn flaenoriaeth allweddol i ymgysylltu gyda phobl ifanc, yn cynnwys y rhai sydd mewn risg o gael eu gwahardd, i ddeall eu hamgylchiadau a thynnu o'r profiad hwnnw i'w helpu a'u cefnogi i beidio cael eu gwahardd.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am gyfrif absenoldeb ddwywaith, rhoddodd y Rheolwr Gwasanaeth sicrwydd i Aelodau lle mae disgybl wedi cofrestru ddwywaith, mai dim ond yn y safle y maent yn ei fynychu ar y diwrnod hwnnw y byddid yn cofnodi presenoldeb.

Cyfeiriodd Aelod at y nifer isel o ddisgyblion a safodd arholiadau lefel A y llynedd a holodd os oes canran yng nghyswllt nifer y disgyblion sy'n sefyll arholiadau lefel A y dylai'r Awdurdod fod yn anelu ato. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod Coleg Gwent fel rhan o sesiwn wybodaeth i Aelodau wedi cyflwyno eu data cyffredinol dros y tair blynedd ddiwethaf sy'n dangos cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sydd wedi sefyll lefel A a hefyd nifer y dysgwyr sydd wedi dilyn cyrsiau astudiaeth galwedigaethol. Teimlai mai un o fanteision model trydyddol oedd yr ystod eang o gwricwlwm sydd ar gael. Byddid yn cadw golwg agos ar faint y ddarpariaeth Lefel A sydd ar gael gyda Choleg Gwent a byddai hyn yn cael ei gynnwys fel rhan o Agenda Bwrdd Partneriaeth Ôl 16. Teimlai fod y data a gyflwynodd Coleg Gwent yn galonogol ac yn dangos cynnydd yn y cyfranogiad ôl-16 yn gyffredinol, a hefyd yn cydnabod y nifer o bobl ifanc o fewn Blaenau Gwent sy'n dilyn darpariaeth dysgu sy'n seiliedig yn fwy ar alwedigaeth.

| | |
|---|---|
| | Yng nghyswllt y dysgwyr sy'n dewis cymryd lefel A, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod patrwm ar draws Cymru lle mae nifer y dysgwyr sy'n dewis y llwybr lefel A wedi gostwng, felly nid yw hyn yn unigryw i Flaenau Gwent. Byddai hyn yn ffurfio rhan o'r trefniadau monitro gyda'r Bwrdd Partneriaeth Ôl-16 ac yn sicrhau y daw'r data yn ôl i Aelodau fel rhan o'r Flaenraglen Gwaith drwy'r adran Datblygu Aelodau.<br><br>Cyfeiriodd Aelodau at y bwlch rhwng y rhywiau a gofynnodd pam nad oedd hwn yn faes ar gyfer gwella. Esboniodd y Cyfarwyddwr Addysg nad yw'r rhestr o feysydd ar gyfer gwella yn gynhwysfawr. Mae'r adroddiad yn rhoi naratif lefel uchel o berfformiad cyffredinol. Roedd mwy o waith i gael ei wneud yng nghyswllt y bwlch cyfranogiad yn ôl rhywiau a'r bwlch perfformiad rhwng y rhywiau. Mae bechgyn yn tueddu i berfformio'n llai da mewn rhai pynciau ac yn y dyfodol byddai ffocws ar gwricwlwm sy'n hygyrch i bob dysgwr e.e. pynciau STEM h.y. Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg ac mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ac Ôl 16 i sicrhau fod cwricwlwm deniadol sy'n diwallu anghenion a diddordebau bechgyn a merched ar gael yn y dyfodol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 4692 |
|---|---|
| Item Title | Cyfarwyddiaeth Addysg – Ymateb i COVID-19 |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau i graffu ar ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i sefyllfa COVID-19, yn neilltuol yn cefnogi ysgolion yn ystod y cyfnod argyfwng.<br><br>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg am yr adroddiad a rhoi sylw i'r diweddariadau llafar am ymateb y Gyfarwyddiaeth Addysg i Covid-19 a roddwyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor i sicrhau bod Aelodau'n cael eu hysbysu am y datblygiadau diweddaraf. Mae'r adroddiad yn rhoi sylw i'r gweithgaredd yn nhymor yr hydref a thymor y gwanwyn ac yn cynnwys yr wybodaeth gyfredol fwyaf perthnasol.<br><br>Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant mai profiad penaethiaid ysgol a chydweithwyr oedd eu bod yn teimlo fod Blaenau Gwent wedi bod yn gefnogol iawn iddynt a'u cynnwys yn yr holl drafodaethau yn nhermau ailagor ysgolion ac yna'r cyfnod clo pellach, a hefyd sut y byddent yn cael pobl ifanc yn ôl i'r ysgol yn ddiogel.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei sylwadau a nododd fod y Pwyllgor yn croesawu'r adborth o safbwynt penaethiaid ysgol.<br><br>Cododd Aelod gwestiwn am ddisgyblion yn mynd ag offer technoleg gwybodaeth a gyflenwyd gan yr Awdurdod gartref gyda nhw a disgyblion yn |

| | |
|---|---|
| | defnyddio eu dyfeisiau eu hunain yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol, a holodd sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau fod y disgyblion yn defnyddio eu hoffer eu hunan yn ddigonol, a gyda dysgu wyneb i wyneb yn dychwelyd, a fyddai'r plant yn parhau i gael offer technoleg gwybodaeth gan yr awdurdod lleol.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg y gallai o bosibl fod elfennau o ddysgu cyfunol am y dyfodol rhagweladwy, yn neilltuol mae'n hanfodol fod dysgwyr yn cael cyfle i ddysgu mewn gosodiadau ysgol i wneud hynny'n llwyddiant. Yng nghyswllt Dod â'ch Dyfeisiau eich Hun, mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio'n agos gyda SRS i sicrhau fod unrhyw ddysgwr sy'n defnyddio offer yn ddiogel ac nad yw'n creu unrhyw risgiau posibl iddynt, mae hyn yn rhan o'r prosiect ehangach ar seilwaith a chysylltedd. Cafodd tua 1,600 o ddyfeisiau eu dosbarthu i ddysgwyr ac mae nifer ohonynt wedi manteisio o ddysgu cyfunol. Teimlai fod elfennau cryf o ddysgu oedd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf y gellid adeiladu arno yn y dyfodol.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes y bu'r tîm yn gweithio'n agos gydag ysgolion yn edrych ar anghenion dysgwyr sydd dan anfantais digidol. Y cynllun presennol yw i'r dysgwyr gadw'r dyfeisiau a ddosbarthwyd gan dymor yr haf, byddai hyn yn cynnwys gliniaduron ac unedau mi-fi sy'n galluogi cysylltedd. Adolygir hyn yn y dyfodol ond mae'r Awdurdod yn ymroddedig i ddarparu cymorth am weddill y flwyddyn academaidd. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio gydag ysgolion, EAS a SRS i ddatblygu strategaeth TGCh yn edrych ar y ffordd orau i alluogi dysgwyr i gael mynediad yn gyffredinol yn eu cartrefi a hefyd yn yr ysgol. Mae tua 1 dyfais ar gyfer pob dysgwr ledled y stad ysgolion a'r nod yw cadw ac efallai gynyddu hyn lle bynnag sy'n bosibl. Gyda chynllun Hwb Ed-Tech a chyllid Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig gyda hynny, byddai hyn yn galluogi'r tîm i edrych am adnewyddu tua 25% o ddyfeisiau diwedd oes ledled y stad ysgolion. Edrychir ar hyn fel rhan o gynllunio cynaliadwyedd yn unol â'r Strategaeth TGCh.<br><br>Cododd Aelod gwestiwn am ddyfeisiau ar fenthyg ac os yw'r Cyngor yn dal i fod yn gyfrifol am gynnal a chadw y dyfeisiau hynny.<br><br>Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth eu bod ar hyn o bryd yn bendant iawn yn dal i fod yn eiddo'r Awdurdod Lleol a bod yr Awdurdod Lleol yn eu cynnal a chadw. Os oes unrhyw broblemau gyda'r dyfeisiau hynny, yna byddai'r Awdurdod yn ymateb ar unwaith. Mae'r ysgolion a'r SRS yn gweithio gyda'r Awdurdod Addysg Lleol i ymateb i unrhyw broblemau, byddai adolygiad o ofynion a datblygir cynllun yn ystod tymor yr haf. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i edrych ar eu cynlluniau o amgylch cyllido a hefyd yn gweithio'n agos gydag ysgolion i edrych ar eu cynlluniau am ddarpariaeth. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynllun ffurfiol, fodd bynnag sefydlir cynllun yn ystod tymor yr haf a fyddai'n dod i rym o ddechrau tymor yr hydref a fyddai'n galluogi dysgwyr i gadw cynhwysiant llawn adref a hefyd yn yr ysgol.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y trefniant swigen dosbarth y mae ysgolion yn |

| | |
|---|---|
| | gweithredu o'i fewn a gobeithiai na fyddai'r trefniant hwn yn cael ei lacio'n rhy gyflym a bod ysgolion yn gwaethygu. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg na chafodd hyn ei lacio gan fod canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru yn cadw'r un fath o arferion am greu swigod dosbarth. Teimlai ei fod yn dal i fod yn sefyllfa beryglus ac y byddai llacio swigod dosbarth yn rhy gynnar yn cael effaith niweidiol ar achosion yn gyffredinol.<br><br>Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes eu bod yn ofalus iawn am lacio rheolau a rheoli risgiau. Roedd swigod wedi gweithio'n dda hyd yma ac roeddent wedi gobeithio cadw'r trefniadau hynny am weddill yr haf gyda golwg ar gynnal adolygiad llawn am y trefniadau gweithredu ar gyfer mis Medi yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod am adnewyddu dyfeisiau, atebodd y Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes y cafodd cryn dipyn o waith ei wneud i adeiladu ac ailbwrpasu'r dyfeisiau fel y gellid eu dosbarthu. Gwnaed hynny mewn camau dros y sesiwn academaidd ddiwethaf yn unol â dysgwyr newydd ac arfaethedig dan anfantais digidol. Ar y cam hwn, mae'r gliniaduron a'r feddalwedd ar y dyfeisiau yn addas i'r diben. Mae gweithdrefnau monitro ar waith lle gellid dychwelyd y ddyfais os oes unrhyw broblemau. Maent yn gweithio gyda SRS i edrych os oes angen gwneud mwy o waith ar y dyfeisiau hynny ac os felly byddent yn rhagweithiol wrth sicrhau eu bod yn cael eu casglu a'u hailddosbarthu yn brydlon. Roedd y Gyfarwyddiaeth yn ymwybodol o risgiau posibl am gynnydd pellach yn nifer achosion ond byddai'n dal ati i ddosbarthu'r dyfeisiau am y dyfodol rhagweladwy.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef derbyn yr adroddiad fel y'i cyflwynwyd. |

| Item ID | 4693 |
|---|---|
| Item Title | Polisi Trefniadaeth Ysgolion (2021/24) |
| Summary | Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i gael barn y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yng nghyswllt yr adolygiad o'r Polisi Trefniadaeth Ysgolion (2021024), cyn cyflwyno'r polisi i Bwyllgor Gweithredol y Cyngor. Cynigir mabwysiadu a gweithredu'r polisi diwygiedig o ddechrau blwyddyn academaidd 2021/22.<br><br>Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes am yr adroddiad a thynnu sylw at y prif bwyntiau ynddo.<br><br>Holodd Aelod os y gallai'r polisi gynnwys agwedd o lesiant. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth fod y polisi'n canolbwyntio ar flaenoriaethau trefniadaeth ysgolion tebyg i reoli a'r weledigaeth ar gyfer y stad ysgolion yn y dyfodol ac y byddai'r agwedd llesiant yn ffurfio rhan allweddol o'r cynllun adferiad. Gallai hyn o bosibl gynnwys hynny yn y polisi yn unol â chynlluniau adferiad addysg. |

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod am fodelau ffederal, dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth y byddent yn ystyried hyn fel un o'r opsiynau yn gysylltiedig gyda'r ysgol Gymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg fod Blaenau Gwent yn un o'r awdurdodau lleol cyntaf i gael ysgol ffederal, sef Ysgol Rhiw Briery, yn uno â Chymuned Ddysgu Ebwy Fawr. Teimlai fod penaethiaid ac arweinwyr ysgol effeithlon iawn ar draws y stad ysgolion sy'n rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa dda i ystyried modelau ffederal yn y dyfodol er mwyn cael arweinyddiaeth ansawdd uchel wedi'i lledaenu ar draws y stad ysgolion. Dywedodd y gellid symud ymlaen gyda modelau ffederasiwn mewn dwy ffordd: model ffederasiwn dan arweiniad yr awdurdod lleol neu gan gyrff llywodraethu. Mae cyfleoedd yn y dyfodol, yn neilltuol wrth gefnogi ysgolion gyda nifer isel o ddisgyblion. Yng nghyswllt chydweithio rhwng Chweched Dosbarth, dywedodd y Cyfarwyddwyr y bu nifer o modelau ffederal ar draws Cymru ar gyfer darpariaeth ôl-16 oherwydd y nifer cymharol fach o ysgolion y mae disgyblion yn darparu ar eu cyfer. Yng nghyd-destun Blaenau Gwent, fodd bynnag, sefydlwyd model trydyddol gyda Choleg Gwent yn y Fwrdeistref Sirol. Yng nghyswllt yr ysgol Gymraeg, yr opsiwn a ffafrir fyddai cydweithredu rhwng Bro Helyg a'r ysgol newydd unwaith y'i datblygir ond byddai hyn yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad.

Dywedodd Aelod nad yw ysgolion uwchradd yn llai na 600 disgybl. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth – Trawsnewid Addysg a Newid Busnes eu bod yn y broses o sefydlu amcanestyniadau disgyblion ac wedi cynnal adolygiad blynyddol o gapasiti. Mae rhai ysgolion sy'n gymharol agos at y nifer hwn ond dim yn y categori ar hyn o bryd. Gyda'r adolygiad blynyddol o gapasiti a'r adolygiad blynyddol o amcanestyniadau, byddent yn gweithio'n agos gyda phenaethiaid ysgol uwchradd i fonitro hyn wrth symud ymlaen.

Dywedodd y Cyfarwyddwr o safbwynt strategol yn unol â pholisi trefniadaeth ysgolion eu bod wedi ad-drefnu ysgolion uwchradd yn sylweddol dros y 10 mlynedd ddiwethaf ac mae Blaenau Gwent yn bendant iawn yn lleoliad pedair ysgol uwchradd, ac os nad oes newid syfrdanol nid oes dim o'r ysgolion uwchradd dan adolygiad sylweddol ar hyn o bryd. Teimlai fod hon yn lefel addas o ddarpariaeth y byddai'r stad ysgolion ei hangen yn y dyfodol. Dywedodd fod cael yr ysgol gywir o'r maint cywir yn y lle cywir yn rhan o'r polisi.

Holodd y Cadeirydd sut i sicrhau y caiff arfer gorau ei drosglwyddo i ysgolion eraill. Dywedodd y Pennaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant fod llawer o rannu gwybodaeth da ar draws ysgolion, yn arbennig ar draws clystyrau ac y bu'r EAS yn ganolog wrth sefydlu'r trefniadau a'r partneriaethau hynny. Roedd yn awyddus i sicrhau fod y neges yn mynd ar led i bob ysgol yng nghyswllt y cynllun adfer ac adnewyddu a rhan o'r gwaith hwn yw datblygu gweithio partneriaeth rhwng ysgolion a rhannu arfer gorau a chaiff hynny ei gynnwys yn y cynlluniau hyn wrth symud ymlaen. Byddid yn sefydlu cysylltiadau pellach ar draws ysgolion uwchradd a Choleg Gwent a chynnal trafodaethau ar sut i ddatblygu gweithio partneriaeth a sut i gael darpariaeth ohonynt i ysgolion cynradd yn arbennig flwyddyn 6 a blwyddyn bontio 7.

| | |
|---|---|
| | CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1, sef cytuno ar y newidiadau arfaethedig i Bolisi Trefniadaeth Ysgolion 2021 Blaenau Gwent.<br><br>Gan mai hwn oedd y cyfarfod olaf yn y cylch Pwyllgorau, diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd, yr Aelodau a Swyddogion am eu cefnogaeth a'u cyfraniad mewn blwyddyn heriol iawn. Teimlai fod y Pwyllgor wedi mynd o nerth i nerth a gobeithiai y byddai hyn yn parhau yng nghylch nesaf y Pwyllgor.<br><br>Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg i'r Cadeirydd am ei sylwadau cadarnhaol a dywedodd fod Estyn wedi gwneud sylwadau adeiladol ar effeithlonrwydd Craffu ym Mlaenau Gwent. |